**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Darren Miller, AS,
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru,
Caerdydd,
CF99 1SN

e-bost: darren.millar@senedd.cymru

16 Mawrth 2023

Annwyl Darren

Diolch am y cyfle i ymddangos gerbron pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar 1 Mawrth i roi tystiolaeth ynghylch Bil Bwyd (Cymru).

Cawsom drafodaeth ddefnyddiol am sicrhau cysondeb rhwng egwyddorion polisi ac roeddwn i'n meddwl y byddai'n helpu'r pwyllgor i gynnig rhywfaint o dystiolaeth bellach am gwestiynau ynghylch sicrhau cysondeb polisi y tu allan i fy mhortffolio a gododd yn ystod y sesiwn.

Cyfeiriodd yr enghraifft gyntaf at y system gynllunio sy'n caniatáu sefydlu bwytai bwyd brys y tu allan i'n hysgolion. Yn wir mae angen mynd i'r afael â'r pellter rhwng bwytai bwyd brys ac ysgolion. Felly hoffwn dynnu eich sylw at waith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn hynny o beth, ac yn enwedig at Bwysau Iach Cymru Iach sy'n cynnwys yr ymrwymiad pendant i gyfyngu ar nifer y siopau cludfwyd poeth a gaiff eu sefydlu o gwmpas ysgolion (gweler tudalen 11).

Cyfeirioch hefyd at y ffaith bod gan ysbytai'r GIG beiriannau sy'n gwerthu eitemau nad ydynt yn rhai iach. Eto, mae strategaeth Pwysau Iach Cymru Iach (tudalennau 17-18) yn canolbwyntio ar gynyddu'r opsiynau bwyd a diod iach mewn peiriannau gwerthu, a sicrhau eu bod yn apelio i bobl fel eu bod yn dod y norm.  Erbyn 2030 y nod yw y bydd yr holl ddarpariaeth bwyd a diod i gleifion, staff ac ymwelwyr yn cadw at feini prawf iach llym, gan gynnwys o fewn ffreuturau, peiriannau gwerthu a siopau manwerthu ar safleoedd y GIG.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cododd Luke Fletcher AS y drydedd enghraifft o bolisi canfyddedig nad oedd yn gyson sef sefydliad Big Bocs Bwyd (BBB) ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Dywedodd fod BBB yn cystadlu gyda llawer o'r sefydliadau cymunedol hyn eisoes am yr un llwyth o fwyd, a'r hyn a welsom bryd hynny oedd prinder bwyd -anawsterau yn y sefydliadau cymunedol hynny wrth gael gafael ar y bwyd hwnnw. Dadl Mr Fletcher oedd y gallai Strategaeth Fwyd Genedlaethol fynd i'r afael â'r mater hwn.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod cyflwyno BBB Pen-y-bont ar Ogwr yn ôl y sôn wedi arwain at drafferthion i sefydliadau cymunedol eraill gael gafael ar fwyd dros ben. Gan dynnu o'r profiad hwn rydym wedi ariannu Partneriaeth Fwyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn ddiweddar. Drwy'r bartneriaeth hon, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO) wrthi'n datblygu cynllun gwaith cynhwysfawr ar gyfer swydd cydlynydd newydd a fydd yn cydlynu mentrau bwyd yn lleol drwy:

- adnabod a sefydlu cysylltiadau rhwng tyfwyr bwyd yn y sir
- nodi cyfleoedd i sicrhau cyflenwadau ychwanegol o fwyd dros ben da
- mapio gweithgarwch arall fel rhandiroedd a chysylltu prosiectau bwyd.

Rwy'n gobeithio bod y llythyr hwn yn egluro'r materion hyn i'r pwyllgor.

Cofion,

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**